OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 245 (Cy.24)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Bwyd (Rheolaeth Frys) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2004

Wedi'u gwneud - -	*4 Chwefror 2004*
Yn dod i rym - -	*8 Chwefror 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran honno, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Teitl, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Bwyd (Rheolaeth Frys) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2004 a deuant i rym ar 8 Chwefror 2004.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

Diwygiadau i Reoliadau Bwyd (Cnau Brasil) (Rheolaeth Frys) (Cymru) 2003

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Bwyd (Cnau Brasil) (Rheolaeth Frys) (Cymru) 2003(**3**) yn unol â pharagraffau (2) a (3).

(2) Yn lle paragraffau (1) a (2) o reoliad 6 (ailanfon neu ddistrywio mewnforion anghyfreithlon) rhowch y paragraffau canlynol —

> "(1) Wedi arolygu neu archwilio unrhyw gnau Brasil, os yw'n ymddangos i swyddog awdurdodedig awdurdod iechyd porthladd neu, yn ôl y digwydd, awdurdod bwyd nad yw'r cnau hynny yn cydymffurfio â'r lefelau uchaf ar gyfer afflatocsin B1 a'r cyfanswm o afflatocsin a sefydlwyd drwy Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 466/2001 sy'n gosod y lefelau uchaf ar gyfer halogion penodol mewn bwydydd(**4**)), caiff y swyddog awdurdodedig, ar ôl ymgynghori'n briodol â pherson y mae'n ymddangos i'r swyddog awdurdodedig mai ef yw'r mewnforiwr, gyflwyno i'r person hwnnw hysbysiad sy'n gorchymyn —

(**1**) O.S. 1999/2788.
(**2**) 1972 p. 68.
(**3**) O.S. 2003/2254 (Cy. 224).
(**4**) OJ Rhif L77, 16.3.2001, t.1.